Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ysgol ofalgar, â'i hymroddiad i'r gymuned yn ganolog iddi. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn ystyriol ac yn gydwybodol i hyrwyddo ethos a nodweddir gan ei chred gref mewn creu teulu Catholig ymroddgar.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn ategu ei gweledigaeth ar gyfer dysgu a lles ac yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn arwain trwy esiampl. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan arweinwyr ac aelodau staff eraill mewn datblygu partneriaethau cryf iawn â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae disgyblion yn meithrin perthnasoedd cryf â staff ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Pan fydd plant yn dechrau yn y dosbarth meithrin, mae ystod y galluoedd yn eang. Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd islaw disgwyliadau yn gysylltiedig ag oedran. Fodd bynnag, o fewn cyfnod byr iawn, o ganlyniad i ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog, mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cryf. Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), neu'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), yn gwneud cynnydd cryf wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn iddynt adael, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni'n dda ar draws y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd digon cryf yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae athrawon yn effeithiol o ran cyflwyno cwricwlwm a ddatblygwyd gan yr ysgol dros sawl blwyddyn yn ddiweddar. Mae ei egwyddorion wedi'u seilio ar ffocws ar barthau dysgu sy'n cael eu hailadrodd wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol. Mae'r parthau hyn yn galluogi disgyblion i archwilio'r un testunau a themâu yn fynych, dyfnhau eu dealltwriaeth ac ymestyn eu gwybodaeth, eu medrau a'u geirfa yn effeithiol. I gefnogi parthau dysgu, mae athrawon yn defnyddio'r awyr agored yn ddychmygus i greu cyfleoedd dysgu cyffrous, gan hyrwyddo cyfranogiad disgyblion a'u mwynhad mewn dysgu.

Ceir diwylliant cynhyrchiol o fyfyrio a gwerthuso o fewn yr ysgol ac mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n briodol ar werthuso ansawdd yr addysgu yn rheolaidd, ond nid yw hi bob amser yn ddigon clir i staff ar beth mae angen iddynt ganolbwyntio fwyaf er mwyn gwella.

# Argymhellion

**A1** **Gwella medrau a hyder athrawon mewn addysgu Cymraeg i wella'r cynnydd a wna disgyblion**

**A2** **Gwella prosesau hunanwerthuso i nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer eu disgyblion ieuengaf, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig Rufeinig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 263 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 207 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 10.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 44% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2008 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |
| Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.